**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**
—
**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Jack Sargeant AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deisebau

6 Rhagfyr 2021

Annwyl Jack

Deiseb P-05-1010: Ymchwiliad annibynnol i'r llifogydd yn Rhondda Cynon Taf fel bod gwersi yn cael eu dysgu

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 22 Hydref 2021, ac am dynnu ein sylw at y ddeiseb uchod.

Mae'r Pwyllgor wrthi'n cytuno ar ei flaenoriaethau ar gyfer y Chweched Senedd ac mae wedi tynnu sylw at reoli risg llifogydd fel maes diddordeb parhaus.

Byddwch yn gwybod bod y Cytundeb Cydweithio diweddar rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru yn cynnwys ymrwymiad i adolygiad annibynnol o'r llifogydd a darodd yn ystod y gaeaf 2020-21 ac i Lywodraeth Cymru weithredu ar ei argymhellion.

Mae'r Pwyllgor yn aros yn eiddgar am ragor o fanylion ar yr adolygiad, a bydd am ddilyn yr adolygiad wrth iddo fynd yn ei flaen. Yn ddiau, bydd y Pwyllgor yn dymuno ystyried cynnydd tuag at weithredu argymhellion yr adolygiad fel rhan o unrhyw waith ehangach ar ddull gweithredu Llywodraeth Cymru o ran rheoli risg llifogydd.

Gobeithio y bydd hyn o ddefnydd i chi.

Yn gywir,

Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd, Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English